eiriolaeth
advocacy
Y Rhaglen Edau Euraidd
The Golden Thread Programme

age Cymru
Creu Cymru oed gyfeillgar
Creating an age friendly Wales

# Cylchlythyr Eiriolaeth

Ionawr 2017 Rhif 3

**Hoffai Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i chi!**

## Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 5

Darpara Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 5 giplun o ddarpariaeth eiriolaeth yng Nghymru i oedolion, gyda phwyslais penodol ar bobl hŷn. Awgryma fod y nifer cyffredinol o eiriolwyr wedi parhau i godi, ond mae'n dangos achos am bryder mewn rhai meysydd. Mae hyn yn cynnwys dirywiad mewn darparwyr arbenigol a bylchau mewn argaeledd daearyddol.

O bryder penodol i Age Cymru yw'r cwymp yn y nifer o ddarparwyr eiriolaeth arbenigol ac eiriolwyr i bobl hŷn.

Canfyddiadau ers Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 4

- Mae cwymp o 17% wedi bod yn y nifer o wasanaethau eiriolaeth (o 23 i 19) sy'n benodol ar gyfer pobl hŷn ers Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 4.
- Mae cynnydd o 69% wedi bod mewn gwasanaethau sy'n darparu eiriolaeth i grŵp cleient ehangach. Mae'r cynnydd o 26 i 44 gwasanaeth.
- Mae 107 o eiriolwyr cyflogedig llawn amser yn gweithio ledled Cymru. Mae 20 o'r rhai hynny yn cyflwyno eiriolaeth yn benodol i bobl hŷn.
- Mae 66 o eiriolwyr cyflogedig rhan-amser. Mae 23 o'r rhai hynny yn cyflwyno eiriolaeth yn benodol i bobl hŷn.
- Mae 66 o eiriolwyr gwirfoddol yn gweithio mewn amrywiol wasanaethau eiriolaeth ledled Cymru. Mae hyn yn gynnydd o 22%.
- Mae 37 yn llai o eiriolwyr cyflogedig a 23 yn llai o eiriolwyr gwirfoddol sy'n cynorthwyo pobl hŷn yn arbennig nag a adroddwyd yn Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 4.
- Cyfanswm nifer y bobl hŷn a gynorthwywyd gan yr ymatebwyr dros y 12 mis diwethaf oedd 6412. Mae hyn yn gynnydd o dros 900 o Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 4.
- Gan edrych ymlaen, mae nifer y gwasanaethau sy'n credu y gwnaiff eu cyllid barhau'r un fath neu gynyddu wedi cwympo i 53% o'i gymharu â 63% yn Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 4.
- Mae gwasanaethau a gyllidir yn benodol ar gyfer pobl hŷn mewn 17 o 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn unig. Mae hyn i lawr o 21 yn Mae Eiriolaeth yn Cyfrif 4. Mae gwasanaethau ar gyfer grŵp cleient ehangach fodd bynnag yn gofalu am holl awdurdodau lleol.

Yn parhau...

Mae Age Cymru yn ymroddedig i gynorthwyo datblygu sector eiriolaeth annibynnol yng Nghymru. Mae'n ei weld fel offeryn hanfodol i ddiogelu lles holl ddinasyddion, nid dim ond pobl hŷn. Mae Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd Age Cymru wedi'i chyllido gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gweithredu Rhan 10 (eiriolaeth) o'r "Ddeddf" mewn ffordd strategol ac unedig. Mae'n ceisio datblygu gwasanaethau cyson a chynaliadwy ledled Cymru gyfan.

Am fwy o wybodaeth neu weld y crynodeb gweithredol neu adroddiad llawn Eiriolaeth 5 ewch ar:

Age Cymru | Advocacy Counts 5

**Louise Hughes, Age Cymru**

## *Deall cyd-gynhyrchu, a'i rôl mewn comisiynu eiriolaeth*

*Mae cyd-gynhyrchu yn un o bum egwyddor graidd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Ond a oes gan gomisiynwyr ddyletswydd i gyd-gynhyrchu gwasanaethau eirioli? Yn gyntaf, beth* ***yw*** *cyd-gynhyrchu? Dyma'r gyntaf mewn cyfres o erthyglau ar gyd-gynhyrchu ac eiriolaeth.*

### Dau fath o gyd-gynhyrchu

Disgrifia *Cyflwyniad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)*, sef modiwl e-ddysgu Cyngor Gofal Cymru, gyd-gynhyrchu fel:

> "ffordd o weithio'n seiliedig ar ddinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn rhannu grym a gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid cyfartal i gynllunio a chyflwyno gofal a chymorth a chreu cymunedau cryfach."[1]

Er nad yw'r tasgau o "gynllunio a chyflwyno gofal a chymorth" ac "adeiladu cymunedau cryfach" yn annibynnol o'i gilydd, gellir gweld cyd-gynhyrchu fel cael ceisiadau ar lefelau unigol a sefydliadol / strategol.

Atgyfnerthir hyn yn Rhan 2 o'r Cod Ymarfer[2] sy'n cyfeirio at "ddiogelu agwedd sy'n seiliedig ar gyd-gynhyrchu ar lefel sefydliadol a strategol".

### Tair lefel o gyd-gynhyrchu

Mae tair lefel o gyd-gynhyrchu hefyd wedi'u disgrifio

- Disgrifiadol: sy'n disgrifio sut mae holl wasanaethau yn dibynnu'n barod ar rywfaint o fewnbwn gan ddefnyddwyr

- Canolradd: sy'n cydnabod a chynorthwyo cyfraniadau defnyddwyr gwasanaeth ond heb newid systemau cyflwyno'n sylfaenol

- Trawsnewidiol: sy'n ail-leoli grym a rheolaeth, creu diwylliannau a strwythurau newydd sy'n gwreiddio ymddiriedaeth a dwyochredd yn annibynnol o'i gilydd.[3]

Cyd-gynhyrchu trawsnewidiol sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf.

Yn parhau...

## Cyd-gynhyrchu trawsnewidiol ar y lefel unigol

Dywed Rhan 3 o'r Cod Ymarfer[4]:

> 18. Dylai'r broses asesu fod yn seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu. Mae'n sicrhau ei fod yn cynnwys perthynas lle rhanna ymarferwyr ac unigolyn y grym i gynllunio a chyflwyno cymorth gyda'i gilydd. Mae'n cydnabod bod holl bartneriaid â chyfraniadau hanfodol i'w wneud i gynorthwyo canlyniadau personol hysbys.

Mae cyd-gynhyrchu trawsnewidiol ar y lefel unigol felly'n disgrifio ansawdd perthynas gydag ymarferwyr sy'n galluogi dinasyddion i gael llais, dewis a rheolaeth mewn nodi a chyflawni eu canlyniadau lles personol. O safbwynt ymarferydd gwaith cymdeithasol golyga hyn y dylai grym, rheolaeth a chyfrifoldeb gael ei rannu'n gyfartal â'r unigolyn.

## Cyd-gynhyrchu trawsnewidiol ar lefel sefydliadol / strategol

Dywed Rhan 2 o'r Cod:

> 242. Bwriad egwyddorion ac arferion cyd-gynhyrchu yw adeiladu'r economi graidd leol o bobl yn cyfnewid sgiliau, diddordebau ac amser. Gwnânt gynorthwyo i newid y pwyslais tuag at gymorth a grëir drwy fuddiannau a rennir ac ymroddiad cyffredinol pobl â buddsoddiad ynddo.

Mae gan gyd-gynhyrchu trawsnewidiol ar lefel sefydliadol / strategol ffocws gwahanol ar waith (e.e. bancio amser, adeiladu cyfalaf cymdeithasol). Mae'n cynnwys cyfres newydd o brosesau. Mae hyn er ei fod â llawer yn gyffredin mewn cyd-gynhyrchu ar lefel unigol.

## 6 egwyddor cyd-gynhyrchu

Diffiniwyd y rhain fel

- *Cydnabod pobl fel asedau*, partneriaid cyfartal ac "arbenigwyr drwy brofiad", gyda chyfraniad positif i'w wneud i gynllunio a chyflwyno gwasanaethau
- *Adeiladu ar alluoedd pobl*, troi'r dull diffyg a galluogi pobl i gyfrannu eu sgiliau, doniau a phrofiad i gyflawni eu canlyniadau lles eu hunain ac yn ehangach
- *Datblygu perthynas ddwyffordd*, galluogi dinasyddion i weithio mewn partneriaeth cilyddol â gweithwyr proffesiynol ac eraill
- *Annog cymorth cyfoedion*, ynghyd â chymorth proffesiynol, i adeiladu hyder a datblygu galluoedd
- *Cuddio gwahaniaethau,* tynnu ffiniau artiffisial rhwng gweithwyr proffesiynol, darparwyr a derbynwyr wrth ailgynllunio gwasanaethau
- *Mae hwyluso, nid cyflwyno, yn gofyn ar ddarparwyr i gydweithio â phobl i'w galluogi i nodi a chyflawni canlyniadau lles personol sy'n bwysig iddynt.*[5]

Yn parhau...

## Cyd-gynhyrchu ac eiriolaeth

Mae gan eiriolaeth annibynnol rôl eglur mewn cynorthwyo dinasyddion i ymgysylltu mewn cyd-gynhyrchu ar lefelau unigol a strategol. Ond a oes gan gyd-gynhyrchu rôl mewn comisiynu eiriolaeth? Dywed Pennod 4 o Ran 2 o'r Cod:

> 238. Rhaid i bobl fod ynghlwm wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau.
>
> 263. Mae gan awdurdodau lleol rôl bwysig mewn creu amgylchfyd a fydd yn hyrwyddo cynhwysiant pobl ar bob lefel o gynllunio, dylunio, hyrwyddo a gweithredu gwasanaethau.

Mae hyn yn rhoi cyfarwyddyd eglur ar gyfer cyd-gynhyrchu gwasanaethau eiriolaeth. Sut ddylai hyn weithio'n ymarferol? Trafodir hyn yn y cylchlythyr nesaf.

## Cyfeirnodau


1. Cyflwyniad i fodiwl e-ddysgu Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), Cyngor Gofal Cymru

2. Rhan 2 Cod Ymarfer (Swyddogaethau Cyffredinol)

3. Cyd-gynhyrchu: theori ac ymarfer, New Economics Foundation

4. Rhan 3 Cod Ymarfer (Asesu anghenion unigolion)

5. Addaswyd o Cyd-gynhyrchu: theori ac ymarfer, New Economics Foundation


**Paul Swan, Age Cymru**

# *Cynlluniau Gwasanaeth Eiriolaeth: Tystiolaeth a'u defnydd*

Mae comisiynu unrhyw wasanaeth yn gofyn am "werthuso opsiynau" yn ystod y cylch comisiynu. Rho'r erthygl hon drosolwg cryno o brif gynlluniau gwasanaethau eiriolaeth ynghyd ag enghreifftiau o'u defnydd ar gyfer ystyriaeth bellach.

Yn fras, mae dau fath o gynllun gwasanaeth, ***darparydd gwasanaeth sengl*** neu ***gynllun gwasanaeth partneriaeth*** o nifer o ddarparwyr. Gellir torri'r ddau gynllun eang hwn i lawr fel a ganlyn.

### Darparydd Gwasanaeth Sengl

Mae'r cynllun o ddarpariaeth gwasanaeth yn gofalu am ystod eang o gynlluniau gwasanaeth posibl. Mae hyn o wasanaeth a gontractiwyd unigol (e.e. gwasanaethau IPA neu IMCA, i un darparydd) i gynllun gwasanaeth lluosog neu lawn. Yma darperir nifer o wahanol wasanaethau eiriolaeth, neu holl wasanaethau eiriolaeth a gomisiynwyd mewn un ardal gan un darparydd. Nodir y tri math o wasanaeth yn aml fel cynlluniau "Gwasanaeth Unigol, Gwasanaeth Lluosog, a Gwasanaeth Llawn".

Ceir enghraifft o'r cynllun darparydd gwasanaeth Unigol yn y gwasanaeth a gomisiynwyd yn ddiweddar sy'n cyflwyno eiriolaeth Deddf Gofal yn Cymbria:

Yn parhau...

*"Roedd eiriolaeth Deddf Comisiynu Gofal fel rhan o gontract bloc gan ddarparydd unigol yn 'talu difidendau' yn Cumbria. Gwelwyd hyn fel ffordd 'gost-effeithiol' a phriodol o gyflwyno 'darpariaeth eiriolaeth ddi-dor' ledled ardaloedd amrywiol."*

Aiff yr adroddiad ymlaen i ddyfynnu comisiynydd:

*"Ni fyddai'r cynllun hyb yn gweithio yn yr ardal hon...gwyddwn fod prynu ar y pryd o nifer fawr o ddarparwyr am gyfran o'r boblogaeth dros ardal ddaearyddol eang yn arwain at wasanaethau nad yw'n gost-effeithiol. Gallent fod yn dameidiog ac efallai arwain at ansefydlogrwydd yn y farchnad."*

Mae canlyniadau negyddol posibl y ffurf hon o wasanaeth yn cynnwys y risg posibl o gael 'wyau i gyd mewn un fasged'. Wrth ystyried y ffurf hon o gynllun gwasanaeth mewn gweithdy cyd-gynhyrchu darparwyr diweddar, a hwyluswyd gan dîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd, nododd un darparydd:

*"A all un sefydliad ynysig roi eiriolaeth ansoddol yn gyffredinol?"* (cyfweliad darparydd)

Fodd bynnag, nodwyd hefyd byddai pethau cadarnhaol yn cynnwys:

"*Byddai'n creu Gwasanaeth di-dor i gleientiaid*" (cyfweliad darparydd)

Gall y math hwn o gontractio roi sefydlogrwydd ar gyfer y sefydliad y rhoir y contract iddynt. Galluoga hwy i ddatblygu a hyfforddi eu staff. Nodwyd hefyd y gall y math hwn o gontract olygu bod darparwyr llai yn ei chanfod hi'n fwy anodd cystadlu mewn sefyllfa dendr agored. Byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i ddatblygu marchnad.

**Cynllun Gwasanaeth Partneriaeth**

Gall hyn gynnwys rhai o'r cynlluniau a drafodwyd uchod, h.y. gwasanaeth lluosog neu lawn gan gall mwy nag un darparydd ddarparu'r gwasanaethau hyn. Nodweddir y cynlluniau gwasanaeth hyn hefyd fel 'hyb ac adain' neu gynllun partneriaeth. Yn y cynllun hwn byddai'r hyb yn:

*"...cael y swyddogaeth o fod yn ganolbwynt cyfeirio, dyrannu, monitro.."* i'r adenydd a drostynt a *"chyfeirio at wasanaethau cymorth amgen ar gyfer y rhai hynny sy'n anghymwys ar gyfer eiriolaeth"*

Prif fantais yr hyb yw pwynt mynediad unigol a syml ar gyfer cyfeiriadau sy'n caniatáu rhwyddineb defnydd. Yn enghraifft Hyb Eiriolaeth Manceinion:

*"Gwnaed y penderfyniad i dynnu ar yr holl ffurfiau eiriolaeth i un [both/gwasanaeth]...i roi cynnig ehangach [o eiriolaeth] gyda mynediad cliriach a haws. Gwelwyd cyflwyno porth unigol...fel rhoi gwell dealltwriaeth o bosibl o angen eiriolaeth yn y ddinas..."*

Darpara'r math hwn o wasanaeth fantais bosibl am fwy o hyblygrwydd mewn cyflenwad oherwydd nifer fwy o ddarparwyr yn ystod cyfnodau o alw anwadal. Mae hefyd yn 'wasanaeth mwy cyson' oherwydd arferion gweithio cyson y cytunwyd arnynt ac anelwyd at gyflwyno canlyniadau dinasyddion rhwng darparwyr.

Yn parhau...

## Casgliad

Mae nifer o ffyrdd arloesol i gyflwyno gwasanaethau eiriolaeth. Dylai manylebau gwasanaeth geisio meithrin ac annog y posibilrwydd hwn am arloesedd. Nid yw Cymru yn genedl homogenaidd gydag ystod ac amrywiaeth o anghenion a phoblogaeth. Felly:

> *"Yn allweddol i gomisiynu effeithiol yw cydnabod nad yw 'un maint yn addas i bawb'. Chwaraea'r cyd-destun lleol (poblogaeth, daearyddiaeth, safbwyntiau gwahanol a gallu darparwyr) rôl mewn penderfynu'r cynllun priodol."*

Mae tîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yma i gynorthwyo rhanddeiliaid mewn datblygu gwasanaethau Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol. Byddem yn croesawu'r cyfle i drafod hyn gyda chi mewn mwy o fanylder.

## Cyfeirnodau

[1] Cynlluniau Comisiynu Eiriolaeth
[2] Deddf Gofal Cumbria tudalen 10
[3] Deddf Gofal Cumbria tudalen 10
4 Comisiynu Eiriolaeth yn Tees tudalen 4
5 Cynlluniau Comisiynu Eiriolaeth
6 Deddf Gofal Cumbria tudalen 9
7 Deddf Gofal Cumbria tudalen 10

**Huw Davies, Age Cymru**


## *Darparwyr Gwasanaeth Eiriolaeth a Sector Gwerth Cymdeithasol Llewyrchus*

Mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru wedi bod yn cwrdd ag unigolion o'r un anian a brwdfrydig ledled y trydydd sector, y sector annibynnol a'r sector statudol. Mae hyn er mwyn edrych ar sut maent yn bodloni eu dyletswydd dan Ran 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae hyn i hyrwyddo gwerth cymdeithasol mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Rho Adran 16(1) o'r Ddeddf ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol a sefydliadau trydydd sector i roi gofal a chymorth a gwasanaethau ataliol yn eu hardal. Diffinia Adran 16(2) "fenter gymdeithasol" gan gynnwys gofyniad bod ei gweithgarwch yn gyfan gwbl neu'n bennaf lle gall unigolyn ystyried yn rhesymol barhau er budd cymdeithas. Diffinnir "sefydliad trydydd sector" fel sefydliad lle gall unigolion ystyried yn rhesymol fodoli yn gyfan gwbl neu'n bennaf i roi manteision i gymdeithas. Diffinnir y cyfeiriad at "gymdeithas" yn y ddau ddiffiniad fel cynnwys adran o gymdeithas.

Mae Rhan 2 Cod Ymarfer yn werth ei darllen. Dywed Paragraff 265: "**Rhaid** i awdurdodau lleol gyda phartneriaid bwrdd iechyd sefydlu fforymau rhanbarthol i gynorthwyo gwerth cymdeithasol yn seiliedig ar ddarparwyr. Mae hyn i ddatblygu dealltwriaeth a rennir o'r agenda gyffredin, a rhannu a datblygu arfer da. Nod y fforwm hwn yw annog sector gwerth cymdeithasol llewyrchus sy'n abl a pharod i gyflawni cyfleoedd cyflwyno gwasanaeth."

Yn parhau...




Mae darparwyr gwasanaeth eiriolaeth yn rhan amlwg o'r sector gwerth cymdeithasol. Bydd angen i ranbarthau sicrhau sector gwasanaethau eiriolaeth llewyrchus os yw eu hawdurdodau lleol am weithredu eu dyletswydd statudol i drefnu gwasanaethau Eiriolaeth Proffesiynol Annibynnol i bobl na all fel arall gyfranogi mewn penderfyniadau am eu gofal a'u lles. Rydym yn falch fod sawl sefydliad, gan gynnwys Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru a Fforwm Darparwyr Gwent nawr â swyddogion Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd ar eu Grwpiau Llywio.

Gwnaeth Grŵp Llywio Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru gwrdd am y tro cyntaf fis Tachwedd 2016. Mae wedi dechrau edrych ar sut all partneriaid Gogledd Cymru:

1. Hyrwyddo datblygiad sefydliadau preifat nid er elw (yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector) i roi gofal a chymorth a chymorth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol.
2. Hyrwyddo cydweithrediad gyda nod o wneud y mwyaf o werth cymdeithasol a chyd-gynhyrchu (cyfranogiad pobl lle darperir gwasanaethau gofal a chymorth neu ataliol), yng nghynllun a gweithred y ddarpariaeth honno) ledled holl ddarparwyr sector sy'n cyflwyno gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithaso a/neu lesiant yng Ngogledd Cymru.

Yng nghyfarfod mis Tachwedd, trafododd Grŵp Llywio Darparwyr Gwent ddatganiad ysgrifenedig y Gweinidog ar gyhoeddiad arweiniad ar gofnodi mesur canlyniadau personol – pwnc sydd angen erthygl ei hun.

Os ydynt i lwyddo i annog sector gwerth cymdeithasol llewyrchus, bydd angen i awdurdodau lleol ymgysylltu â dinasyddion a darparwyr. Rhaid iddynt ddatblygu fforymau lleol yn y gymuned a chynorthwyo a chydlynu unrhyw beth o'r gwaith sy'n bodoli yn barod ym mhob sir. Nod allweddol yw rhannu dysgu ledled Cymru. Mae rhanbarthau yn cydweithredu i wneud hynny. Er enghraifft, mae Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru wedi derbyn gwahoddiad gan Fforwm Gwerth Cymdeithasol Cwm Taf i ddysgu gyda'i gilydd a rhannu datblygiadau. Maent hefyd wedi gwneud cysylltiadau gyda Rhwydwaith Gyd-gynhyrchu Cymru a phrosiect Gofalu i Gydweithredu Cydweithfa Cymru er mwyn rhannu mapiau ased ac arfer gorau.

Bydd tîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd yn gweithio i roi'r gwasanaethau eiriolaeth yn uchel iawn ar agenda fforymau gwerth cymdeithasol. Mae hyn er mwyn i'r sector elwa cymaint â phosibl o'r gwaith. Os oes rhywbeth yr hoffech ei drafod â ni, neu os oes gennych syniadau, profiad ac arfer da i'w rhannu, neu faterion sydd angen eu trin, cysylltwch â thîm Rhaglen Eiriolaeth Edau Euraidd. Mae manylion cyswllt y rheolau gweithredu rhanbarthol ar gyfer Rhan 2 o'r Ddeddf yn y blwch ar ddiwedd yr erthygl hon.

**Galwad i rannu gwybodaeth ac arbenigedd**

Yn olaf, mae Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yn ystyried diffiniad 'gwerth cymdeithasol'. Mae llawer o ddiffiniadau sydd ag ystod o ran cyd-destun o ddiffiniadau caffael sector cyhoeddus i'r rhai hynny â ffocws ar fanteision llesiant ychwanegol a chynyddu cyfalaf cymdeithasol. Os hoffech rannu eich diffiniad, i gynorthwyo Fforwm Gwerth Cymdeithasol i ddatblygu eu diffiniad hwy, neu yn dymuno gwneud cysylltiadau eraill gyda'r grŵp llywio, cysylltwch â: maria.bell@denbighshire.gov.uk

Yn parhau...

Am ragor o wybodaeth am weithgareddau sy'n ymwneud â gweithredu'r Ddeddf yn eich ardal, cysylltwch â'ch Pennaeth Gweithredu Rhanbarthol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Caerdydd a'r Fro | Nichola Poole npoole@valeofglamorgan.gov.uk | Canolbarth a Gorllewin | Martyn Palfreman MJPalfreman@carmarthenshire.gov.uk |
| Cwm Taf | Sian Nowell Sian.Nowell@rctcbc.gov.uk | Bae'r Gorllewin | Sara Harvey Sara.Harvey@swansea.gov.uk |
| Gwent | Mark Saunders Mark.Saunders@torfaen.gov.uk | Gogledd Cymru | Bethan M Jones Edwards bethan.m.jonesedwards@denbighshire.gov.uk |

For further information about implementation activity in your area, please contact your Regional Implementation Manager:


| | | | |
|---|---|---|---|
| Cardiff and Vale | Nichola Poole npoole@valeofglamorgan.gov.uk | Mid and West | Martyn Palfreman MJPalfreman@carmarthenshire.gov.uk |
| Cwm Taf | Sian Nowell Sian.Nowell@rctcbc.gov.uk | Western Bay | Sara Harvey Sara.Harvey@swansea.gov.uk |
| Gwent | Mark Saunders Mark.Saunders@torfaen.gov.uk | North Wales | Bethan M Jones Edwards bethan.m.jonesedwards@denbighshire.gov.uk |

**Val Billingham, Age Cymru**

## *Cofnodi Mesuriad o Ganlyniadau Personol*

**(Cyhoeddwyd dan yr Offeryn Asesiad a Chymhwysedd Cenedlaethol)**

**Cyflwyniad**




Darpara'r canllaw hwn fframwaith ar gyfer cofnodi a mesur cynnydd yn erbyn canlyniadau personol yn ystod y broses ofalu a chymorth i unigolion. Mae'r sgorio ond yn berthnasol i unigolion sy'n gymwys am gynllun gofal a chymorth. Mae hefyd yn berthnasol i ofalwyr sy'n gymwys am gynllun cymorth dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mesurir cynnydd yn erbyn canlyniadau sy'n gysylltiedig ag anghenion cymwys mewn cynllun gofal a chymorth neu gynllun cymorth.

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i oedolion a phlant (gan gynnwys gofalwyr ifanc a rhai sy'n oedolion). Cyfeiria "unigolyn" at oedolion a phlant. Disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio eu synnwyr cyffredin ynglŷn â gyda phwy y dylid defnyddio'r canllaw hwn i sgorio canlyniadau personol.

I weld y canllaw llawn, ewch ar:

Cofnodi Mesuriad Canlyniadau Personol

## *Lleisiau Canser Pobl Hŷn*

Dewch i gwrdd â David a Mike wrth iddynt siarad am effaith eu diagnosau canser. Rhanna David ei ddymuniad i aros adref mor hir â phosibl. Rhanna hefyd sut gwnaeth ei eiriolwr gynnig cymorth iddo, cynyddu hyder a chwmnïaeth gan fod ei gynllun triniaeth wedi newid. Dywed Mike nad yw canser fyth yn bell o'i feddwl. Dywed sut fod Bob yr eiriolwr yn rhywun gallai siarad ag ef. Roedd Bob yn gwybod am ganser a helpodd Mike i deimlo'n fwy hyderus am fynd am driniaeth ac archwiliadau.




Hanesion David a Mike yw'r cyntaf mewn cyfres o ffilmiau byrion Lleisiau Canser Pobl Hŷn gan Gynghrair Eiriolaeth Pobl Hŷn (OPAAL). Mae'r prosiect yn ymwneud â phwysleisio barn  pobl hŷn a effeithir arnyny gan ganser, gan newid bywydau pobl hŷn drwy eiriolaeth.

Gallwch wylio'r hanesion hyn yma https://www.youtube.com/c/opaalcopa ac ymuno â'r sgwrs ar Twitter @opaaluk. Bydd OPAAL yn rhannu'r holl ffilmiau yn y gyfres hon dan yr hashnod #mycanceradvocacystory. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Ang Broadbridge ar angela@opaal.org.uk

**Wynebu Canser Gyda'n Gilydd**

Mae OPAAL, mewn partneriaeth â Chymorth Canser Macmillan, wedi cyhoeddi Wynebu Canser Gyda'n Gilydd: 12 hanes sy'n arddangos sut all cael eiriolwr cyfoed gynorthwyo ar lefel bersonol, gan ddod â phrofiad byw i drin rhai o'r problemau cyffredin sy'n gysylltiedig â chanser.
Gall diagnosis canser gael effaith emosiynol llethol, nid yn unig i'r unigolyn gyda'r clefyd, ond ar ei ffrindiau a'i deulu.

I'r unigolyn sydd wedi derbyn diagnosis, mae gallu siarad â rhywun yn aml yn bwysig ond nid yw llawer o bobl, yn enwedig pobl hŷn, eisiau gosod y cyfrifoldeb hwn ar eu hanwyliaid. Gall eiriolwr annibynnol fod yn hanfodol yn y cyswllt hwn gan roi cymorth annibynnol a heb fod yn feirniadol mewn lleoliad niwtral.

Dywed Albert sut dderbyniodd ddiagnosis am ganser prostad terfynol. Roedd yn 65 oed ac yn dioddef o anabledd dysgu a chlefyd Asperger. Cynorthwywyd gan Jenny, eiriolwr cyfoed a oedd â phrofiad personol o ganser. Roedd hi felly'n deall beth oedd yn ei brofi. Datgela hanes Suzanne sut y bu i ddiagnosis o ganser y pen a'r gwddf ddinistrio'i bywyd. Gwnaeth Lisa, ei heiriolwr cyfoed, ei chynorthwyo i adennill ei llais a'i hyder.

Mae'r 12 hanes i gyd yn fewnwelediad i'r effaith mae canser yn ei gael. Mae Wynebu Canser Gyda'n Gilydd yn rhoi'r cyfle i bobl hŷn egluro drostynt eu hunain am yr effaith bositif y gall eiriolaeth annibynnol ei chael.

**OPAAL**

## *Hyfforddiant a digwyddiadau defnyddiol*

**Deddf Gallu Meddyliol a Mesurau Diogelu Colli Rhyddid**

20 Chwefror 2017 ym Mangor

Bydd y cwrs hwn yn eich cynorthwyo i ddeall newidiadau diweddar i Fesura Diogelu Colli Rhyddid. Cynorthwya hefyd i ddeall yr angen i arddangos bod trefniadau gofal yn gyfreithiol ac yr awdurdodir hwy'n gywir.

Bydd y cwrs hwn yn galluogi staff i barhau i ddilyn bwriadau gwreiddiol y Ddeddf Gallu Meddyliol a'r Ddeddf Hawliau Dynol. Y rhain yw dylai pobl sydd â llai o allu i wneud penderfyniadau gyfranogi cymaint â phosibl. Dylent allu gwneud dewisiadau pwysig a dylai gwneud penderfyniadau amnewidiol fod yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gwbl atebol.

Cliciwch yma i weld mwy o wybodaeth a gwneud archeb ar-lein.

**Dosbarthiadau Arbenigol Eiriolaeth**

**Dalier sylw fod yr hyfforddiant isod i eiriolwyr cyflogedig sy'n ymarfer yng Nghymru'n unig.**

Mae'r Cyngor Gofal, Age Cymru a Phlant yng Nghymru yn cynnal dosbarthiadau arbenigol ar eiriolaeth o dan y Ddeddf. Bydd yn rhoi fformat ar gyfer eiriolwyr cyflogedig sy'n ymarfer yng Nghymru i gael gwybodaeth a sgiliau a rhoi fforwm ar gyfer cymorth cyfoedion a dysgu parhaus.

Isod ceir manylion o'r dosbarthiadau arbenigol sydd ar gael. I gofrestru ar gyfer unrhyw un o'r dosbarthiadau, cliciwch ar y dolenni perthnasol.

**Llanelwy – 23 Chwefror 2017** – Y Ganolfan Optig 12:30 – 16:30 http://bit.ly/2iOS9n9

Mae gwerthiant tocynnau ar gyfer hwn yn gorffen ar y 9fed o Chwefror. Hysbysir cynrychiolwyr o'u lle wedi 14eg Chwefror.

**Caerdydd – 10 Mawrth 2017** – swyddfa Age Cymru – 9:30 – 13:30 http://bit.ly/2j7xcVH

Mae gwerthiant tocynnau ar gyfer hwn y gorffen ar y 24ain o Chwefror. Hysbysir cynrychiolwyr o'u lle wedi'r 1af o Fawrth.

**Caerfyrddin – 16 Mawrth 2017** – Canolfan Halliwell – 9:30 – 13:30 http://bit.ly/2j7wDLb

Mae gwerthiant tocynnau ar gyfer hwn yn gorffen ar y 1af o Fawrth. Hysbysir cynrychiolwyr o'u lle wedi'r 7fed Mawrth.

**Eiriolaeth Broffesiynol Annibynnol: Llais Dewis a Rheolaeth**

Rhaglen fer o weithdai 2-ran am ddim ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn Ne Ddwyrain Cymru a Chanolbarth/De Orllewin Cymru. Bydd y gweithdai'n ateb cwestiynau allweddol am y dyletswyddau eiriolaeth newydd. Bydd o ddiddordeb penodol i dimau comisiynu awdurdodau lleol a byrddau iechyd a sefydliadau trydydd sector.

Bydd lleoedd yn gyfyngedig i un o bob sefydliad.

Dyddiadau a lleoliadau (9.45am – 1pm)

De Ddwyrain Cymru: 22 Chwefror a 8 Mawrth 2017: YMCA, Casnewydd

Canolfan De Orllewin Cymru: 1 Mawrth a 15 Mawrth: Prifysgol Llanbedr Pont Steffan.

Am ragor o wybodaeth ac archebu lle cysylltwch â hwyluswyr y gweithdy:

Huw Davies – Swyddog Datblygu Rhaglen ar gyfer Comisiynu (Canolbarth a De Orllewin Cymru)
07932 989 657 / huw.davies@agecymru.org.uk

Paul Swann – Swyddog Datblygu Rhaglen ar gyfer Comisiynu (De Ddwyrain Cymru)
07932 989 659 / paul.swann@agecymru.org.uk

## *Cyhoeddiadau defnyddiol*

**Cyfarwyddyd SCIE newydd ar Gomisiynu Eiriolaeth dan y Ddeddf Ofal**

Mae'r cyfarwyddyd newydd hwn yn seiliedig ar astudiaeth ymchwil a ymgymerwyd gan brifysgolion Birmingham a Chanolbarth Sir Gaerhirfryn. Ariannwyd gan yr Adran Iechyd. Ymhelaetha gyhoeddiad SCIE sef Eiriolaeth Annibynnol o dan Ddeddf Gofal 2014.

I ddarllen y cyfarwyddyd, ewch ar:

Comisiynu eiriolaeth o dan y Ddeddf Gofal: Arfer da'n dod i'r amlwg

**Cysylltwch â ni...**

- **I danysgrifio i'r cylchlythyr**
- **Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am yr erthyglau**
- **Os oes unrhyw beth hoffech ei weld yn y cylchlythyr nesaf**

**E-bostiwch ffion.jones@agecymru.org.uk**

**Ffoniwch Rhaglen Edau Euraidd 01352 706228**

**Mae'r golygydd yn cadw'r hawl i ddiwygio erthyglau a gyflwynwyd i'w cyhoeddi. Nid yw'r farn a gynhwysir yn y Cylchlythyr hwn o anghenraid yn rhai Age Cymru.**

**Derbynnir hysbysebion a mewnosodiadau yn ddidwyll, ond nid yw cynnyrch neu wasanaethau a gyfeirir atynt yn cael eu cymeradwyo na'u hargymell gan Age Cymru.**

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Age Cymru,
Ty John Pathy,
13/14 Neptune Court,
Vanguard Way,
Caerdydd, CF24 5PJ

ff: 029 2043 1555
e: enquiries@agecymru.org.uk
www.agecymru.org.uk

Rhif elusen gofrestredig: 1128436
Registered company number: 6837284